

Llais Cenedlaethol
Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
All Wales People First

The National Voice of People
with Learning Disabilities in Wales

# Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

# **Manifffesto**

# 2026

**www.allwalespeople1st.co.uk**



# Cyflwyniad

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yw llais unedig hunan eiriolwyr gydag anableddau dysgu a grwpiau hunan eirioli ar draws y wlad. Yr unig gorff cenedlaethol yng Nghymru o dan arweiniad pobl gydag anableddau dysgu.



Diben hunaneiriolaeth yw hwyluso lleisio barn, deall hawliau, gwneud penderfyniadau a chydweithio er mynnu cydraddoldeb ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.

Yr allwedd er gwerthfawrogi a chynnwys pobl gydag anableddau dysgu fel dinasyddion gweithgar a chyfartal. Yn ein barn ni, hunaneiriolaeth yw'r dull eirioli a gwasanaeth ataliol gorau oll.



# Ein cenhadaeth

Nod Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yw sicrhau bod pob person gydag anableddau dysgu yn gallu cael cymorth hunaneiriolaeth er mwyn lleisio barn a chael dewis a rheolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio eu bywydau. Ein bwriad yw mynnu hawliau cyfartal a delweddau positif ar gyfer anableddau dysgu.



# Ein Maniffesto

Rydym am sicrhau bod Llywodraeth Cymru a llunwyr penderfyniadau yn deall beth sy'n bwysig i ni fel pobl gydag anableddau dysgu yng Nghymru.

## Yr elfennau pwysicaf i ni yw...

# 1. Hunaneiriolaeth



Mae hawl gennym i leisio ein barn. Rydym angen help i ddatblygu sgiliau er mwyn lleisio, dewis a rheoli ein bywydau.

Bydd hwyluso hunaneiriolaeth yn ein helpu i ddeall hawliau, lleisio barn a chymryd ein lle fel dinasyddion gweithgar a chyfartal o fewn cymdeithas.



Mae hunaneiriolaeth yn destun bygythiad. Y rheswm am hynny yw toriadau gan awdurdodau lleol. Nid oes rheolau a deddfau sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn ei ariannu.

Heb hunaneiriolaeth, bydd rhaid i bobl ddibynnu ar eraill i leisio'u barn. Bydd hynny'n gallu arwain at gamdriniaeth a cholli annibyniaeth.



**Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn:**

- ariannu hunaneiriolaeth ar draws y wlad

- sicrhau bydd darparu hunaneiriolaeth yn orfodol o dan amodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.



**Dylai awdurdodau lleol wneud hyn:**

- cydnabod rôl bwysig hunaneiriolaeth wrth alluogi pobl gydag anableddau dysgu i fwynhau bywydau gweithgar a chyfartal yng Nghymru
- darparu cyllid digonol ar gyfer grwpiau hunaneiriolaeth yng Nghymru.




## 2. Tai & Cymorth

Mae llawer o bobl gydag anableddau dysgu yn derbyn gwasanaethau sy'n cyfyngu eu rhyddid a hawliau dynol. A rhai'n achosi niwed corfforol ac emosiynol. Yn achos llawer ohonom, nid oes hawl gennym i ddewis ble byddwn yn byw a'r rhai byddwn yn byw gyda nhw.




Mae'r niweidiau hynny'n cynnwys ein gosod mewn ysbytai diogel, pan fydd yn amlwg nad ysbytai yw'r lleoliad addas. Cedwir rhai ohonom mewn ysbytai am nad yw'r gwasanaethau addas ar gael.


**Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wneud hyn:**




- gwella darpariaeth o dai cymdeithasol a chymorth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu
- darparu'r gwasanaethau angenrheidiol er galluogi pobl gydag anableddau dysgu i fwynhau byw mewn modd byddent yn dewis eu hunain
- sicrhau na fydd pobl gydag anableddau dysgu yn cael eu rhoi mewn unedau ac ysbytai diogel pan na fydd angen gwneud hynny



- cefnogi ac ariannu trosi i wasanaethau mwy addas er galluogi pobl gydag anableddau dysgu i fyw o fewn eu cymunedau lleol.




# 3. Cyflogaeth

Mae pobl gydag anableddau dysgu yn wynebu gormod o rwystrau wrth geisio cael gwaith.

Rydym angen cyfleoedd, cymorth ac addasiadau rhesymol, megis: cymorth i gael hyd i waith; cymorth i ddysgu'r sgiliau angenrheidiol i wneud y swyddi hynny; hyfforddwyr swyddi; cymorth i gael budd-daliadau; a gwybodaeth hygyrch.



Mae hynny'n bwysig iawn ar hyn o bryd, pan mae pobl gydag anableddau dysgu o dan bwysau i gael hyd i waith. Nid oes digon o gyfleoedd gwaith, na'r cymorth iawn i barhau mewn gwaith.



**Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn:**

- cefnogi mwy o gyfleoedd i gael gwaith tal a chymorth i barhau mewn gwaith

- cefnogi  a gweithredu argymhellion project Cyfleoedd Cyflogaeth (Engage to Change) Cysylltu er Newid. Cyflogi pobl gydag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth: adroddiad gan gyflogwyr Engage to Change.



- yr Ysgrifennydd Cyfiawnder Cymdeithasol i barhau i siarad gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig am y rhwystrau mae pobl gydag anableddau dysgu yng Nghymru yn wynebu wrth geisio cael gwaith.



# 4. Trafnidiaeth

Mae darparu gwasanaethau trafnidiaeth hygyrch, diogel, dibynadwy a fforddiadwy yn hanfodol i ni. Byddwn yn dibynnu arnynt wrth deithio i waith, gweld ffrindiau, a bod yn rhan o'n cymunedau. Mae llawer ohonom yn dibynnu ar docynnau teithio pobl anabl.



**Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn:**


- sicrhau bod y rheolau o ran trefnu Tocynnau Teithio Pobl Anabl yn alinio â deddfau Llywodraeth Cymru, megis Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn hytrach na meini prawf PIP.

**Dylai awdurdodau lleol wneud hyn:**



- sicrhau bod y rheolau o ran trefnu Tocynnau Teithio Pobl Anabl yn alinio â deddfau Llywodraeth Cymru, megis Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn hytrach na meini prawf PIP.

- cydweithio â ni wrth lunio newidiadau i wasanaethau neu bolisïau trafnidiaeth.



- trefnu contractau gyda chwmnïau bws fydd yn darparu staff wedi'u hyfforddi i ddelio gydag anableddau dysgu.

- sicrhau bod gwasanaethau bws yn cyflogi staff sy'n deall anghenion pobl gydag anableddau dysgu.



# 5. Iechyd

Mae llawer o bobl gydag anableddau dysgu yn wynebu problemau wrth geisio defnyddio gwasanaethau hanfodol i'w helpu i gynnal llesiant ac iechyd.

Yn aml, y rheswm am hynny yw diffyg cymorth a gwybodaeth addas a phrinder staff sy'n deall anableddau dysgu. Ni fydd rhai ohonom yn derbyn profion iechyd blynyddol o gwbl. Ac ni fydd rhai profion iechyd mor drylwyr ag y dylent fod.




**Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn:**

- dileu'r anghyfiawnderau iechyd bydd pobl gydag anableddau dysgu yn wynebu wrth wneud yr isod: Buddsoddi mewn hyfforddiant anableddau dysgu ar gyfer gweithwyr iechyd.



- sicrhau bod pobl gydag anableddau dysgu yn helpu i gyd-gynhyrchu a darparu hyfforddiant

- sicrhau bod pobl gydag anableddau dysgu yn gallu cael profion iechyd blynyddol ac apwyntiadau gyda meddygon teulu pan fydd angen



- sicrhau y cynhyrchir yr holl wybodaeth iechyd berthnasol a llythyrau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu yn fformat Easy Read.



# 6. Cydraddoldeb

Mae cael ein trin yn gyfartal yn bwysig iawn i ni, gydag anghyfartaledd yn effeithio pob rhan o'n bywydau - addysg, cysylltiadau personol, cyflogaeth, lleoliad ein cartref, cyfrannu at gymunedau a gwybodaeth hygyrch.



Mae pobl gydag anableddau dysgu angen gwybodaeth hygyrch er hwyluso penderfyniadau ar beth sy'n effeithio ein bywydau.

**Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wneud hyn:**

- cynnwys amodau Confensiwn Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig (United Nations Convention on the Rights of Disabled People - UNCRPD) o fewn deddfau Cymreig



- darparu'r adnoddau iawn er gwireddu argymhellion cynllun Gweithredu Pobl Anabl

- sicrhau bod adrannau'r llywodraeth sy'n cynnal polisïau anableddau dysgu yn derbyn yr adnoddau angenrheidiol er dileu anghydraddoldebau cymdeithasol a rhwystrau rhag bod yn rhan aelodau llawn o gymdeithas.

